Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L CG 0274 19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

08 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Y BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 18 Chwefror fe ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch adran 8 y Bil. Mae nodyn ar hwn wedi'i atodi yn Atodiad A.

Fe soniais yn ogystal fy mod wedi gofyn i swyddogion baratoi diagram yn esbonio natur gymhleth deddfwriaeth ar hyn o bryd, a sut y bydd Cod o Gyfraith Cymru yn cydgrynhoi a chodeiddio hyn. O ystyried y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth gynllunio a wnaethpwyd yn ystod tystiolaeth rhan ddeiliaid, rydym wedi defnyddio hwn fel yr esiampl. Rydw i'n gobeithio y bydd Atodiad B yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor am ei fod hefyd yn rhoi syniad o sut y gall gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales fod yn ddefnyddiol er mwyn cyhoeddi Codau a deunydd esboniadol yn y dyfodol.

Yn gywir,

Jeremy Miles AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr Atodiad: sylwadau ar adran 8 o'r Bil

Diben ac effaith adran 8

1. Pan fydd term sy'n cael ei ddefnyddio mewn Deddf neu offeryn yn cael ei ddiffinio'n statudol, mae adran 8 o'r Bil yn darparu bod "rhannau ymadrodd eraill a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol" ar y term hwnnw i'w dehongli yn unol â'r diffiniad. Un o ddibenion adran 8 yw galluogi deddfwriaeth i fod yn fyrrach ac yn fwy cyson, mewn achosion pan fwriedir i ddiffiniad o un term lywodraethu ystyr termau perthynol.

2. Er enghraifft, pe bai Deddf yn creu cynllun cofrestru, gallai ddiffinio "y gofrestr". Gallai'r Cynulliad fwriadu i eiriau megis "cofrestru" a "cofrestriad" gael eu dehongli drwy gyfeirio at y gofrestr honno. Gallai'r bwriad hwnnw fod mor amlwg fel na fyddai angen i'r Ddeddf ei grybwyll. Os na fyddai'r bwriad yn amlwg, byddai'r drafftiwr yn ychwanegu geiriad at ddiwedd y diffiniad o "y gofrestr" er mwyn gwneud hyn yn glir, megis "mae ymadroddion perthynol i'w dehongli yn unol â hynny". Mae adran 8 yn osgoi'r angen i ailadrodd y math hwn o eiriad ym mhob achos, ac yn lleihau'r risg y bydd drafftwyr gwahanol yn drafftio mewn ffyrdd anghyson.

3. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bod adran 8 yn "mynd yn rhy bell".[1] Ar un olwg mae hyn yn wir, oherwydd bod adran 8 yn creu rhagdybiaeth ynghylch yr hyn y bwriedir i ddeddfwriaeth ei olygu, ac ni fydd hyn yn iawn ar gyfer pob Deddf ac offeryn. Fodd bynnag, mae'r un peth yn wir am bob rheol yn Rhan 2 o'r Bil: maent i gyd yn rhagdybiaethau cyffredinol, sydd wedi eu cynnwys oherwydd bod y Llywodraeth yn credu eu bod yn iawn ar gyfer y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth Cymru. Ond bydd achosion pan fydd angen i ddeddfwriaeth weithio'n wahanol. Dyna pam y mae'r rhan fwyaf o'r rheolau yn Rhan 2 yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth ddatganedig i'r gwrthwyneb neu i unrhyw gyd-destun sy'n mynnu dehongliad gwahanol.

4. Awgrymwyd yn y dystiolaeth y gallai unrhyw broblem o ran cymhwyso adran 8 gael ei datrys drwy ddehongli ("*resolved by interpretation*") ac y byddai'r ystyr a fwriedir fel arfer yn glir o'r cyd-destun.[2] Rydym yn cytuno y gall fod achosion pan nad yw diffiniad statudol yn gymwys i derm perthynol oherwydd bod y cyd-destun yn ei gwneud yn glir mai canlyniad gwahanol yw'r bwriad. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld hyn yn wendid; yn hytrach, mae'n nodwedd annatod o sut y bwriedir i Ran 2 o'r Bil weithredu.

Y berthynas rhwng enwau a berfau

5. Cyfeiriwyd y Pwyllgor at sylw'r Athro Daube y gall fod i "enwau asiant" (sy'n cyfeirio at bobl sy'n gwneud pethau) ac ambell waith "enwau gweithred" (sy'n cyfeirio at yr hyn a wneir) ystyron mwy cul a mwy penodol na'r berfau cyfatebol.[3] Felly, nid yw pawb sy'n pobi yn bobydd, ac nid cogydd yn unig sy'n coginio.[4]

6. Mae rhywfaint o rym i'r sylwadau hyn wrth gyffredinoli am yr hyn y mae geiriau yn tueddu i'w olygu yn y defnydd arferol o iaith, os ydynt yn cael eu defnyddio heb unrhyw esboniad pellach. Ond mae ystyron geiriau bob amser yn dibynnu ar y cyd-destun lle y cânt eu defnyddio, ac nid yw'n anodd meddwl am gyd-destunau lle y bwriedir i "cogydd"

---

[1] Tystiolaeth lafar gan yr Athro Thomas Glyn Watkin, 14 Ionawr 2019, paragraffau 157, 161.

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Watkin, 5 Ionawr 2019, paragraff 23; tystiolaeth lafar, paragraffau 153, 155.

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Watkin, paragraff 23; tystiolaeth lafar, paragraff 150. Gwnaed y pwynt gan yr Athro Daube mewn darlith ar Gyfraith Rufain yn 1966, fel rhan o ddadl yn erbyn dod i gasgliadau hanesyddol ffug ar sail y tarddiadau ieithyddol cyffredin ar gyfer enwau cysyniadau cyfreithiol. Yn benodol, nododd y gallai enwau gweithred ymddangos mewn cofnodion sydd gryn dipyn yn ddiweddarach na'r berfau y maent yn tarddu ohonynt.

[4] Efallai ei bod yn bosibl dadlau hefyd fod tuedd i enwau asiant feddu ar ystyron mwy cul na'r enwau gweithred cyfatebol. Er enghraifft, gellid dweud "nid yw gwaith pobi bob amser yn cael ei wneud gan bobyddion".

neu “pobydd” olygu dim byd mwy na rhywun sy’n coginio neu’n pobi, ac nid unigolyn sy’n gwneud hynny o ran galwedigaeth neu mewn unrhyw ffordd arbennig. Nid yw’r sawl sy’n dweud “Cogydd da ydw i” o reidrwydd yn defnyddio “cogydd” mewn unrhyw ystyr arbennig.

7. Pa mor ddilys bynnag y bo’r honiadau ieithyddol hyn wrth ddisgrifio’r defnydd arferol o iaith, nid ymddengys eu bod yn ddadleuon ynghylch sut y mae geiriau yn cael eu defnyddio yn y cyd-destunau deddfwriaethol penodol y bydd adran 8 o’r Bil yn gymwys iddynt. Nid ymdrin ag ystyron geiriau yn gyffredinol y mae adran 8 o’r Bil, ond ag achosion pan fo deddfwriaeth yn defnyddio geiriau ac ymadroddion sy’n perthyn i dermau eraill y rhoddwyd diffiniadau statudol iddynt. Mae llawer llai o rym i’r dadleuon yn y cyd-destun hwn.

8. Rhan bwysig o gyd-destun adran 8 yw’r ffaith nad yw ond yn gymwys pan fo deddfiad yn rhoi diffiniad o air neu ymadrodd. Mae dau fath o sefyllfa, yn fras, pan fo deddfwriaeth yn cynnwys diffiniadau. Un ohonynt yw pan fo’r ddeddfwriaeth yn creu cysyniad neu label cyfreithiol newydd na fyddai ystyr iddo fel arall, megis “is-offeryn Cymreig” yn adran 3(2) o’r Bil. Y llall yw pan fo’r ddeddfwriaeth yn defnyddio gair neu ymadrodd cyffredin, ond mae angen egluro neu newid yr ystyr cyffredin yn y geiriadur sydd i’r gair hwnnw neu’r ymadrodd hwnnw at ddibenion y ddeddfwriaeth, megis yn y diffiniad o “Cymru” yn Atodlen 1 i’r Bil. Er na ddylai deddfwriaeth ddefnyddio geiriau mewn ffyrdd sy’n gamarweiniol, efallai y bydd angen i ddeddfwriaeth roi ystyron mwy manwl iddynt na’r ystyron arferol.

9. Mae’r dadleuon a wnaed yn y dystiolaeth yn awgrymu y gallai adran 8 o’r Bil olygu bod diffiniadau eang o ferfau yn cael eu cymhwyso yn anfwriadol i enwau y bwriadwyd iddynt gael ystyron mwy cul. Fodd bynnag, mae hynny’n awgrymu y gallai drafftwyr deddfwriaethol wneud ymdrech fawr i ddarparu diffiniadau manwl o ferfau, ond wedyn ddefnyddio enwau perthynol yn llac, heb ystyried y diffiniadau hynny nac adran 8.[5] Nid dyna’r ffordd rydym yn disgwyl i ddeddfwriaeth gael ei drafftio; mae angen i ddrafftwyr deddfwriaethol feddwl yn ofalus bob amser am ystyr y geiriau y maent yn eu defnyddio. Os yw Deddf yn diffinio term, rhaid i’r drafftiwr ystyried sut y gallai’r diffiniad effeithio ar ystyr unrhyw dermau tebyg a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y Ddeddf.

10. Mae cysondeb a manwl gywirdeb yn arbennig o bwysig wrth ddrafftio deddfwriaeth. Gall hynny olygu bod deddfwriaeth yn defnyddio enwau mewn ffyrdd sy’n cyfateb yn agosach at eu berfau perthynol nag mewn cyd-destunau eraill sy’n llai ffurfiol. Os yw Deddf yn diffinio “mewnforio” mewn ffordd benodol, mae’n debyg y bwriedir i “mewnforiad” olygu gwneud yr hyn sydd wedi ei gwmpasu gan y diffiniad, ac i “y mewnforiwr” olygu’r person sy’n ei wneud. Dyna fydd y sefyllfa ddiofyn o dan adran 8, ond bydd angen penderfynu ym mhob achos a yw adran 8 yn cael yr effaith gywir.

11. I’r gwrthwyneb, os yw Deddf yn diffinio berf mewn ffordd benodol ond mae’r drafftiwr am roi ystyr mwy arbenigol i enw perthynol, bydd rhaid i’r Ddeddf ddiffinio’r enw. Os yw’r Ddeddf yn diffinio “mewnforio” ond yn bwriadu i “mewnforiwr” olygu person sy’n ymwneud â mewnforio mewn ffordd benodol iawn, bydd rhaid i’r Ddeddf ddatgan hynny yn glir. Byddai hynny’n wir gydag adran 8 neu hebddi; ac os oes diffiniadau ar wahân ar gyfer y ferf a’r enw, ni fydd adran 8 yn berthnasol i’r berthynas rhyngddynt.[6]

---

[5] Efallai fod hyn yn awgrymu y gallai deddfwriaeth ddiffinio “enwau gweithred” ond defnyddio “enwau asiant” yn llac wedyn. Yn aml iawn, mae deddfwriaeth yn diffinio enwau gweithred (megis “tramgwydd” neu “addysg” neu “mabwysiad”) ac wedyn yn darparu i’r diffiniadau hynny fod yn gymwys i “ymadroddion perthynol” megis berfau neu enwau asiant. Ond mae’r angen i fod yn ofalus ac yn fanwl yr un mor bwysig wrth ddiffinio term sy’n enw ag y mae wrth ddiffinio berf.

[6] Bydd adran 8 yn dal i fod yn berthnasol i amrywiadau gramadegol eraill ar y termau sydd wedi eu diffinio, megis treigladau, cywasgiadau, ffurfdroadau berfol, a ffurfiau lluosog a ffurfiau meddiannol enwau.

12. Cyfeiriodd y dystiolaeth i'r Pwyllgor at y posibilrwydd y gall fod i enw weithiau ystyr hollol wahanol i ferf gyfatebol.[7] Yn sicr, mae'n bosibl y gall deddfwriaeth ddiffinio un term weithiau a hefyd ddefnyddio term arall sy'n perthyn yn etymolegol iddo ond y mae ystyr hollol wahanol iddo. Yn yr achos hwnnw, byddem yn dweud nad oedd y ddau derm yn ffurfiau gwahanol ar yr un term, ac ni fyddai adran 8 yn gymwys.

13. Gan ystyried yr enghraifft a grybwyllwyd yn y dystiolaeth lafar, ni fyddai adran 8 yn golygu bod diffiniad statudol o'r ffurfiau berfol "*solicit*" neu "*soliciting*" yn gymwys i gyfeiriadau at yr enw "*solicitor*". Ni fyddai siaradwyr Saesneg Prydeinig yn ystyried "*solicitor*" yn enw asiant ar y ferf "*solicit*" ond yn hytrach, byddent yn ei weld yn air hollol wahanol. Byddai adran 8 yn amherthnasol felly.

Y gwahaniaethau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg

14. Tynnwyd sylw at y ffaith y gall y ffyrdd y mae berfau ac enwau yn cyfateb i'w gilydd fod yn wahanol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddwyd yr enghraifft hon mewn tystiolaeth:

> "Cymerwch air fel 'compose' yn Saesneg. Mae 'composer' yn mynd gyda 'compose' a 'composition' hefyd. Trowch at y Gymraeg: 'cyfansoddi', 'cyfansoddwr', 'cyfansoddiad'—rŷch chi wedi mynd yn awr at 'constitution', yntê, a dim byd i wneud â 'composition'."[8]

15. Ond mae i'r gair "cyfansoddiad" ystod o ystyron posibl sy'n cynnwys "*composition*" yn ogystal â "*constitution*".[9] Pe bai darn o ddeddfwriaeth yn defnyddio'r geiriau "cyfansoddi" a "cyfansoddiad" mae'n anodd dychmygu sut y gallai'r cyd-destun adael unrhyw amheuaeth ynghylch pa ystyron a fwriadwyd. Ond byddai angen i'r drafftiwr a'r cyfieithydd sicrhau na fyddent yn defnyddio'r geiriau mewn ffordd a fyddai'n creu amwysedd, yn yr un ffordd ag y dylent bob amser ystyried unrhyw amwyseddau posibl a'u hosgoi.

16. Mae'n bosibl y gallai testun Bil mewn un iaith ddefnyddio berf ac enw sy'n ffurfiau sy'n perthyn yn etymolegol i'w gilydd, tra byddai testun y Bil yn yr iaith arall yn defnyddio ffurfiau na fyddent yn perthyn yn etymolegol i'w gilydd. Er enghraifft, gallai'r testun Cymraeg ddefnyddio "dysgu" ac "athro" sydd â gwreiddiau gwahanol, tra byddai'r testun Saesneg yn defnyddio "*to teach*" a "*teacher*" sy'n dod o'r un gwreiddyn etymolegol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod geiriau yn perthyn i'w gilydd yn ramadegol er bod iddynt darddiadau etymolegol gwahanol.

17. Nodwedd llawer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg, yw y gall ffurfdroadau gwahanol neu ffurfiau gramadegol gwahanol ar yr un rhan ymadrodd (e.e. ffurfiau ar enw, ansoddair neu ferf) fod yn seiliedig ar wreiddiau etymolegol gwahanol. Er enghraifft, yn Gymraeg mae i "gwell" a "gorau" wreiddyn gwahanol i "da", ac yn Saesneg mae'r un peth yn wir am "*better*" a "*best*" a "*good*". Gellir gweld hyn mewn ffurfdroadau berfol hefyd: mae gan "mynd" darddiad gwahanol i "aeth", ac mae'r un peth yn wir am "*go*" a "*went*". Mae defnyddio geiriau nad ydynt yn perthyn yn etymolegol yn y ffordd hon yn cael ei alw weithiau yn "cyflenwadaeth" ("*suppletion*").

18. Gall y cysyniad hwn hefyd gael ei gymhwyso i achosion pan ystyrir bod rhannau ymadrodd gwahanol (megis enw ac ansoddair) yn perthyn i'w gilydd o ran ystyr er bod

---

[7] Tystiolaeth lafar gan yr Athro Watkin, paragraffau 150, 159.

[8] Tystiolaeth lafar gan yr Athro Watkin, paragraff 161.

[9] Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn rhoi'r ystyron Saesneg a ganlyn ar gyfer "cyfansoddiad": "*composition, combination; order, arrangement; constitution, physique; nature, disposition, temperament; the act of composing; that which is composed; structure, fabric; constitution (of state, &c.)*".

iddynt darddiadau etymolegol gwahanol. Er enghraifft, yn Gymraeg, nid yw “athro” yn perthyn yn etymolegol i “dysgu” (neu “addysgu”) ond mae’n arfer swyddogaeth fel enw asiant i “dysgu” (neu “addysgu”). Yn Saesneg, defnyddir “*lunar*” fel ansoddair o “*moon*” a “*bovine*” fel ansoddair o “*cow*”. Gallant gael eu hystyried yn rhannau ymadrodd cyflenwadol gwahanol o’r un gair.

19. Fel yn yr enghreifftiau hyn, gall cyflenwadaeth ddigwydd yn y naill iaith ond nid yn y llall. Gall olygu fod y geiriau a ddefnyddir mewn un iaith yn perthyn yn etymolegol er nad yw hynny’n wir am y geiriau cyfatebol yn yr iaith arall. Mae hwn yn fater y bydd rhaid i ddrafftwyr a chyfieithwyr ei gadw mewn cof wrth lunio dau destun mewn dwy iaith wahanol ar gyfer Bil neu offeryn, yn union fel y maent yn gorfod cadw mewn cof wahaniaethau eraill rhwng y Gymraeg a’r Saesneg.

20. Hefyd, mae’n bwysig nodi nad adran 8 o’r Bil sy’n creu’r materion hyn, ond gallant godi yn awr. Ar hyn o bryd, os yw drafftiwr darn o ddeddfwriaeth Cymru yn bwriadu cymhwyso diffiniad o derm i dermau perthynol eraill, neu os yw’n tybio ei bod yn amlwg y bydd diffiniad yn gymwys i dermau perthynol, bydd rhaid i’r drafftiwr a’r cyfieithydd sicrhau ei bod yn hollol glir i ba dermau y mae’r diffiniad yn gymwys ym mhob iaith. Os oes unrhyw amheuaeth, un ateb posibl yw diffinio’r holl eiriau ac ymadroddion o dan sylw yn y testunau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Ni fydd adran 8 yn newid y sefyllfa honno.

Casgliad

21. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn ystyried bod y materion ieithyddol a grybwyllwyd yn y dystiolaeth o berthnasedd cyfyngedig i dermau sydd wedi eu diffinio yn neddfwriaeth Cymru. Nid ydym yn credu eu bod yn dangos y bydd adran 8 o’r Bil yn achosi unrhyw broblemau.

Deddfwriaeth sylfaenol presennol ar gynllunio



Nodyn: Mae hyn yn gynrychiolaeth o ddeddfwriaeth sylfaenol presennol ar gynllunio, y mwyafrif yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth yn diwygio y Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 a oedd ei hyn yn gyfuniad o ddeddfwriaeth cynllunio wnaed ers 1947, ond llawer ar wahân ar hyn o bryd. Nid yw'r diagram yn cyfleu'r helaeth o is-ddeddfwriaeth a chanllawiau (megis Nodiadau Cyngor Technegol) sydd hefyd yn berthnasol.

WG37449

Deddfwriaeth yn y dyfodol a'r gynllunio

Cod

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir

Deddfwriaeth sylfaenol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2022

Cydsyniadau Seilwaith

Caffael tir a phrynu gorfodol

Rheoliadau adeiladu a rheolaeth

Is-Deddfwriaeth

Codau Ymarfer a chanllawiau

Deunydd esboniadol

Beth yw cyfraith cynllunio?

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.
Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.
Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.

Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?

Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.
Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.
Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

Nodyn: Fydd y Deddf Cynllunio (Cymru) 2022 yn cyfnerthu, ar gyfer Cymru yn unig, o'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol ar gynllunio. Byddai ei deddfu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn 'Brif Ddeddf' ar gyfraith cynllunio. Gallai Rheolau Sefydlog y Cynulliad ddiogelu strwythur 'prif ddeddfau' yn y dyfodol.

Codau deddfwriaethol taith llywio'r safle

Tudalen ragarweiniol

Codau Cyfraith Cymru

Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

› Codau

www.legislation.gov.uk

Pob Cod

Codau Cyfraith Cymru

- Cynllunio, adeiladu a tuir
- Addysg a sgiliau

Un cod

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2022
- Cydsyniadau Sgilwaith
- Caffael tir a phrynu gorfodol
- Rheoliadau adeiladu a rheolaeth

Rhan o god

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir: Cynllunio

Cod

Cod cynllunio, adeiladu a defnydd tir

- Deddfwriaeth sylfaenol
- Is-Deddfwriaeth
- Codau Ymarfer a chanllawiau
- Deunydd esboniadol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2022 | Cydsyniadau Sgilwaith | Caffael tir a phrynu gorfodol | Rheoliadau adeiladu a rheolaeth

Beth yw cyfraith cynllunio?

Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?

Naratif esboniadol

Cynllunio — Cyfraith Cymru / Law Wales

Beth yw cyfraith cynllunio?

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.

Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.

Sut mae gwneud cais am ganiatâd cynllunio?

Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat. Duis autem vel eum iriure dolor in hendrerit in vulputate velit esse molestie consequat, vel illum dolore eu feugiat nulla facilisis at vero eros et accumsan et iusto odio dignissim qui blandit praesent luptatum zzril delenit augue duis dolore te feugait nulla facilisi.

Lorem ipsum dolor sit amet, cons ectetuer adipiscing elit, sed diam nonummy nibh euismod tincidunt ut laoreet dolore magna aliquam erat volutpat. Ut wisi enim ad minim veniam, quis nostrud exerci tation ullamcorper suscipit lobortis nisl ut aliquip ex ea commodo consequat.

WG37449